



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



ADDYSG CYMRU  
EDUCATION WALES  
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

PARATOI AR GYFER Y CWRICWLWM NEWYDD

# Lleoliadau nas cynhelir a'r Cyfnod Sylfaen: Ugain o gwestiynau cyffredin



## 1. Pryd byddwn ni'n dechrau defnyddio Cwricwlwm i Gymru 2022?

Mae Cwricwlwm i Gymru 2022 drafft ar gael ar-lein i roi cyfle i gydweithwyr a'r cyhoedd ymateb iddo. Bydd y cyfnod adborth yn dod i ben ar 19 Gorffennaf 2019 ac ystyrir yr adborth gan weithwyr addysg proffesiynol sy'n rhan o'i ddatblygu a'i lunio ar y cyd.

Yna caiff *canllawiau Cwricwlwm i Gymru 2022* eu mireinio cyn iddynt fod ar gael ym mis Ionawr 2020 er mwyn eu rhoi ar waith ym mis Medi 2022 ar gyfer lleoliadau nas cynhelir a phob grŵp blwyddyn yr ysgol gynradd a Blwyddyn 7 ysgolion uwchradd. Caiff y cwricwlwm ei roi ar waith ar gyfer Blwyddyn 8 ym mis Medi 2023 ac o un flwyddyn i'r llall nes y caiff ei gyflwyno i Flwyddyn 11 yn 2026.

## 2. A yw'r Cyfnod Sylfaen yn rhan o Gwricwlwm i Gymru 2022?

Mae egwyddorion addysgeg ac arferion y Cyfnod Sylfaen yn ganolog i'r cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, ni welir y term 'Cyfnod Sylfaen'. Mae'r cwricwlwm newydd wedi ei seilio ar gontinwmm dysgu o 3 i 16 oed i gefnogi taith ddysgu gyfoethog drwy brofiad y plentyn drwy gydol ei gyfnod o addysg orfodol.

## 3. Beth yw'r continwmm dysgu yng Nghwricwlwm i Gymru 2022 a beth yw camau cynnydd?

Prif nodwedd y cwricwlwm newydd yw ei fod yn seiliedig ar gontinwmm dysgu o 3 i 16 oed. Ceir pwyntiau ar y continwmm hwnnw a elwir yn gamau cynnydd, sy'n cyfateb yn fras i'r disgwyliadau ar gyfer dysgwyr 5, 8, 11, 14 ac 16 oed. Eu diben yw cefnogi cynllun y cwricwlwm, trwy fod yn glir ynghylch y cynnydd y dylid ceisio'i gyflawni ar y gwahanol bwyntiau. Y bwriad yw y bydd dysgwyr yn symud ar hyd yr un continwmm dysgu ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad o 3 i 16 oed.

## 4. Pa gam cynnydd sy'n ymwneud â dysgwyr oedran meithrin?

Yn gyffredinol bydd dysgwyr meithrin yn gweithio tuag at Gam cynnydd 1.

Mae Cwricwlwm i Gymru 2022 wedi ei gynllunio i gefnogi plant tair i bump oed sy'n mynychu dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion a gynhelir a phlant sy'n mynychu lleoliadau a ariennir nas cynhelir. Yn dair a phedair oed, bydd dysgwyr yn gweithio tuag at Gam cynnydd 1, a bydd lleoliadau ac ysgolion yn datblygu dysgu i gefnogi hyn.

Bydd y profiadau dysgu cyfoethog a gafodd eu cynnig i ddysgwyr oedran meithrin drwy arfer a darpariaeth o safon uchel yn y Cyfnod Sylfaen yn parhau i fod yr hyn a ddisgwylir ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio tuag at Gam cynnydd 1.

## 5. Beth yw pedwar diben y cwricwlwm?

Pedwar diben y cwricwlwm yw'r man cychwyn ar gyfer pob penderfyniad o ran y cwricwlwm. Mae Cwricwlwm i Gymru 2022 wedi ei gynllunio i helpu pob dysgwr i wireddu'r pedwar diben. Mae'r holl brofiadau dysgu a gweithgareddau asesu a gynlluniwyd er mwyn cyflawni pedwar diben y cwricwlwm, sef datblygu plant a phobl ifanc i fod yn:

- **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog** sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- **cyfranwyr mentrus, creadigol** sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- **dinasyddion egwyddorol, gwybodus** Cymru a'r byd
- **unigolion iach, hyderus** sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

## 6. Beth yw'r meysydd dysgu a phrofiad yng Nghwricwlwm i Gymru 2022?

Mae Cwricwlwm i Gymru 2022 yn trefnu dysgu o gwmpas chwe maes dysgu a phrofiad sef:

- **Celfyddydau Mynegiannol**
- **Iechyd a Lles**
- **Dyniaethau**
- **Ieithoedd, Llythrennedd, a Chyfathrebu**
- **Mathemateg a Rhifedd**
- **Gwyddoniaeth a Thechnoleg.**

Bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei gynllunio ar gyfer dysgwyr yn seiliedig ar y profiadau, yr wybodaeth a'r sgiliau a amlinellir yn y chwe maes dysgu a phrofiad. Gall lleoliadau ac ysgolion ddewis sut i wneud hyn yn seiliedig ar anghenion a diddordebau eu dysgwyr.

## 7. Beth yw'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yng Nghwricwlwm i Gymru 2022?

Amlinellir dysgu hanfodol yng Nghwricwlwm i Gymru 2022 fel datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym mhob maes dysgu a phrofiad. Mae'r datganiadau hyn yn nodi cysyniadau allweddol ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad, ac yn cynnwys pennawd a rhesymeg ategol. Bydd y cysyniadau allweddol hyn yn cael eu cyflwyno a bydd dysgwyr yn ailymweld â'r rhain wrth iddynt symud ar hyd y continwrm dysgu. Gellir eu dehongli mewn gwahanol gyfnodau dysgu a dod yn fwy cymhleth yn unol â dealltwriaeth gysyniadol ddyfnach y dysgwr.

Gall iaith y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ymddangos fel petaent wedi eu hysgrifennu ar gyfer dysgwyr hyn ar y dechrau, ond yr hyn sy'n bwysig yw nodi'r cysyniadau yn y rhesymeg gan y byddant yn gyfarwydd i chi yn y gwaith yr ydych yn ei wneud eisoes.

## 8. Beth yw deilliannau cyflawniad yng Nghwricwlwm i Gymru 2022?

Y deilliannau cyflawniad yw datganiadau a wneir o safbwynt y dysgwr ac a fynegir fel 'Gallaf ...' a 'Rwyf wedi ...'. Maent yn nodi'r hyn y disgwylir yn gyffredinol i ddysgwyr ei ddysgu dros ddwy neu dair blynedd.

Mae'r datganiadau 'Gallaf ...' neu 'Rwyf wedi ...' yn amlygu meysydd lle mae dysgwyr wedi cael profiad o ddysgu diogel, sy'n golygu y byddent yn gallu eu defnyddio a'u cymhwyso mewn cyd-destunau newydd a heriol heb gefnogaeth oedolyn.

Nid bwriad y deilliannau cyflawniad yw bod y model 'cyd-fynd orau', hynny yw ni ddylid eu defnyddio fel meini prawf unigol ar gyfer barnu cyflawniad cyffredinol. Yn hytrach, dylid eu defnyddio fel sail i greu darlun cywir o sut y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd er mwyn i'r camau dysgu gael eu cynllunio.

Er bod deilliannau cyflawniad yng Ngham cynnydd 1 yn gyffredinol yn ymwneud â disgwyliadau ar gyfer dysgwyr pump oed, maent wedi eu cynllunio gan feddwl am ddysgwyr o dair oed ymlaen, gyda mewnbwn gan arbenigwyr ac ymarferwyr o leoliadau blynyddoedd cynnar, gan gynnwys y sector a ariennir nas cynhelir.

## 9. Beth yw cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yng Nghwricwlwm i Gymru 2022?

Y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yw llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol a bydd y rhain yn gyfarwydd i chi yn y gwaith yr ydych yn ei wneud eisoes. Yng Nghwricwlwm i Gymru 2022, dylid ystyried y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn rhan o gynllun cwricwlwm ar lefel y lleoliad/ysgol ar draws pob maes dysgu a phrofiad.

Cyfrifoldeb pob lleoliad ac ysgol fydd cynllunio cynnydd ar draws yr ystod lawn o sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn modd hyblyg, yn briodol i anghenion dysgwyr unigol. Bydd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn parhau i fod ar gael i roi cymorth i gydweithwyr yn y gwaith hwn. Bydd adolygiad o'r fframweithiau yn cael ei drefnu yn y dyfodol agos.

## 10. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng asesiadau athrawon presennol a'r cynigion asesu i gefnogi Cwricwlwm i Gymru 2022?

Dyma symud i ffwrdd o'r system bresennol o wneud dyfarniadau ar gyrhaeddiad cyffredinol dysgwr mewn pwnc ar oedran penodol drwy ddyrannu lefel ar sail 'cyd-fynd orau'. **Ni** fydd y deilliannau cyflawniad newydd ar gyfer pob cam cynnydd yn cael eu defnyddio i lunio barn 'cyd-fynd orau'. Yn hytrach, byddant yn cael eu defnyddio yn barhaus i helpu ymarferwyr i benderfynu a yw dysgwr ar y trywydd iawn o ran ei gynnydd dysgu.

Gwneir **asesiad ffurfiannol** gan fwyaf gyda dysgwyr yn ystod y broses o ddysgu i archwilio sut y maent yn gwneud cynnydd ac i nodi cyflawniadau, yn ogystal â nodi meysydd lle mae angen i'w dysgu ddatblygu'n fwy. Yna defnyddir yr wybodaeth hon gan ddysgwyr ac ymarferwyr i bennu'r camau nesaf sydd eu hangen i wella'n fwy ar eu dysgu ac i lywio cynlluniau ymarferwyr.

## 10. A fyddwn ni dal i asesu dysgwyr wrth ddechrau ysgol trwy ddefnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen?

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod Proffil y Cyfnod Sylfaen yn ddull pwysig o fesur lefel datblygiad dysgwyr yn gyson pan fyddant yn dechrau ysgol, a thrwy gydol y Cyfnod Sylfaen.

Er na fydd y cysyniad o 'gyfnodau' yn berthnasol mwyach yn y cwricwlwm newydd, bydd angen asesiad adeg dechrau ysgol i alluogi ymarferwyr i ddarparu cwricwlwm sy'n briodol o ran datblygiad a fydd o fudd i bob dysgwr ac sy'n cyfateb â'u hanghenion.

Mae Proffil y Cyfnod Sylfaen yn ddull gwerthfawr sy'n cefnogi arfer a'r bwriad yw y bydd y Proffil yn cael ei ailgynllunio i sicrhau ei fod yn gyson â threfniadau'r cwricwlwm newydd, a hefyd yn ystyried anghenion plant mewn lleoliadau Dechrau'n Deg a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i randdeiliaid nodi ymarferydd sydd ag arbenigedd digonol o ran y Cyfnod Sylfaen i arwain y gwaith hwn.

## 12. Beth yw 'diwylliannau o ddysgu'?

Mae'r ddogfen *Diwylliant o ddysgu*, sy'n rhan o gyfres o ddeunyddiau ar gyfer lleoliadau nas cynhelir a'r Cyfnod Sylfaen, yn amlinellu'n glir yr egwyddorion a'r disgwyliadau cyffredinol ar gyfer amgylcheddau dysgu a phrofiadau i ddysgwyr yng Nghymru. Mae'n paratoi'r llwyfan ar gyfer dysgu buddiol ac ystyrion a'r uchelgeisiau sydd gennym ni ar gyfer addysgeg ac arfer. Fe'i datblygwyd i roi arweiniad ehangach ynghylch sut i wireddu'r weledigaeth a amlinellir yn *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* (2015), sy'n ystyried ffactorau addysgeg a sefydliadol. Cafodd hwn ei fireinio â mewnbwn gan arweinwyr ac arloeswyr y meysydd dysgu a phrofiad.

Bydd llawer o'i negeseuon yn teimlo'n gyfarwydd i ymarferwyr Cyfnod Sylfaen, gan ei fod yn adlewyrchu gwerthoedd craidd y cyfnod. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion a amlinellir yn cefnogi dysgwyr o bob oed neu gyfnod datblygu. Caiff ei ddefnydd gan ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr hŷn ei roi ar brawf mewn trafodaethau yn ystod y cyfnod adborth.

Er nad yw'r ddogfen *Diwylliant o ddysgu* wedi ei chyhoeddi ochr yn ochr â chanllawiau'r cwricwlwm newydd ar gyfer y cyfnod adborth, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi'r ddogfen ar brawf yn anffurfiol mewn digwyddiadau rhanddeiliaid ac mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ar gyfer ei chyhoeddi ym mis Ionawr 2020. Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu mewnbwn mor eang â phosibl wrth barhau i ddatblygu'r canllaw allweddol hwn.

### 13. Sut caiff y Gymraeg ei dysgu yng Nghwricwlwm i Gymru 2022?

Mae Cwricwlwm i Gymru 2022 yn cynnig y bydd plant a phobl ifanc yn gallu cyfathrebu'n effeithiol drwy ddefnyddio Cymraeg a Saesneg yn eu bywyd bob dydd.

Mae hyn yn golygu bod dyletswydd ar bob lleoliad a ariennir nas cynhelir a phob ysgol i ddysgu Cymraeg i ddysgwyr 3 i 16 oed drwy ddilyniant ieithyddol sydd wedi'i gynllunio'n ofalus. Bydd yn rhan o'r dull lleoliad cyfan/ysgol gyfan, sy'n cynnig cyfleoedd i bob dysgwr ddatblygu'n ddwyieithog.

Ar gyfer plant sy'n dysgu Cymraeg mewn lleoliadau/ysgolion/ffrydiau cyfrwng Saesneg, bydd y disgwyliadau yn cael eu hadolygu a'u cynyddu'n raddol wrth i sgiliau methodoleg y Gymraeg a phrofiad dysgwyr ac ymarferwyr gynyddu.

### 14. Sut bydd y dimensiwn Cymraeg a phersbectif rhyngwladol yn berthnasol i blant tair oed yn ein lleoliadau?

Mae'r agwedd hon yn datblygu'r arfer, sy'n briodol o ran datblygu, o gefnogi plant i feithrin ymwybyddiaeth gref o'r hunan – eu hunaniaeth. Trwy weithio'n agos gyda'u teuluoedd, eu lleoliad a'u cymuned, bydd plant ifanc yn dechrau archwilio hanes, diwylliant, gwerthoedd a threftadaeth y Gymru fodern.

Mae persbectif rhyngwladol yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ystyried eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang. Er hynny, bydd plant ifanc iawn yn gallu uniaethu'n well â phobl a lleoedd sy'n rhan o'u profiad bywyd. Gall y prif negeseuon ynghylch gweithio tuag at ddyfodol cynaliadwy a theg ddechrau drwy ofalu am yr amgylchedd cyfagos a gofalu am ei gilydd.

### 15. Beth yw sgiliau ehangach?

Mae sgiliau ehangach yn cefnogi dysgwyr i fod yn fwy cydnerth ac i allu ymateb i'r heriau y maent yn eu hwynebu, yn awr ac yn y dyfodol.

Wrth i chi arsylwi ar ddysgwyr yn eich lleoliad, fe welwch chi fod llawer o'r sgiliau ehangach yn digwydd yn naturiol trwy chwarae.

- **Meddwl yn feirniadol a datrys problemau** – Dod o hyd i ffyrdd o ystyried a datrys problemau.
- **Cynllunio a threfnu** – Gwneud cynllun, casglu deunyddiau a gweithio gydag eraill i ddatrys problemau a dod o hyd i atebion.
- **Creadigrwydd ac arloesi** – Meddwl am syniadau, bod yn barod i fynd amdani, ac archwilio eu syniadau eu hunain a syniadau pobl eraill.
- **Effeithiolrwydd personol** – Dechrau ystyried a deall bod angen iddynt ystyried syniadau a theimladau pobl eraill, ac ymddwyn mewn modd effeithiol a phriodol wrth weithio a dysgu gyda'i gilydd.



## 16. A fydd angen inni fod yn lleoliad/ysgol sy'n parchu hawliau?

Hawliau dynol yw'r rhyddid a'r amddiffyniadau y mae gan bawb yr hawl iddynt. Mae gan blant hawliau dynol penodol sydd wedi'u gwarantu gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae Cwricwlwm i Gymru 2022 yn chwarae rhan bwysig wrth ddeall a hyrwyddo parch at hawliau dynol a hawliau'r plentyn; ar hyn o bryd canllaw yn unig yw hwn.

Dylai dysgwyr ddysgu ar lefel sy'n briodol i'w datblygiad am hawliau dynol, trwy hawliau dynol ac ar gyfer hawliau dynol, drwy weithredu a grymuso eu hunain ac eraill.

Mewn lleoliadau plentyndod cynnar, mae'r hawliau hyn eisoes yn rhan o arfer bob dydd ac yn ffurfio llawer o'r hyn yr ydym yn ei gynnig o ran addysg bersonol a chymdeithasol. Er iddynt gael eu hadlewyrchu ym mhob maes dysgu a phrofiad, mae Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn arbennig yn cefnogi eu datblygiad.

## 17. Sut ydw i'n cael gafael ar y canllawiau Cwricwlwm i Gymru 2022?

Mae *canllawiau statudol Cwricwlwm i Gymru 2022* drafft yn cynnwys:

- *Canllaw i Gwricwlwm i Gymru 2022*
- canllawiau ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad
- canllawiau asesu.

Mae holl ddogfennau Cwricwlwm i Gymru 2022 ar gael ar wefan Hwb.

Mae'r holl wybodaeth am y porth a mynediad iddo ar gael yn:  
[hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022](http://hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022)

Gallwch gael mynediad iddo drwy ddefnyddio porwr a'r ymadrodd:  
'Cwricwlwm i Gymru 2022 – Hwb – Llywodraeth Cymru'.

## 18. Sut ydw i'n cymryd rhan yn y broses rhoi adborth?

Er mwyn rhoi adborth ynghylch y cwricwlwm newydd, awgrymwn eich bod yn ymgyfarwyddo â'r dogfennau sydd ar gael ar-lein ar Hwb, neu drwy fynychu sioeau teithiol neu gyfres o hyfforddiant yn eich ardal leol ac yn eich lleoliad. Gall siarad â chydweithwyr am fanteision y cwricwlwm newydd a sut y gellir cynllunio ar gyfer y newidiadau fod o gymorth yn ystod y broses adborth.

Pan fydd gennych chi syniadau a barn ar y cynigion, llenwch ffurflen i sicrhau y bydd eich barn yn cyfrif.

Mae'r ffurflen adborth ar gael ar-lein yn:  
[hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/dweud-eich-dweud](http://hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/dweud-eich-dweud)

### 19. Beth yw'r dyddiadau allweddol ar gyfer yr adborth?

Bydd y cyfnod adborth yn dod i ben ar **19 Gorffennaf 2019**.

Ystyrir yr adborth gan weithwyr addysg proffesiynol sy'n rhan o'i ddatblygu.

Yna bydd y *canllawiau Cwricwlwm i Gymru 2022* yn cael eu mireinio cyn y byddant ar gael i ysgolion ym mis **Ionawr 2020** er mwyn iddynt ddechrau cynllunio a datblygu eu cwricwla.

### 20. Beth yw ffurf rhoi Cwricwlwm i Gymru 2022 ar waith?

Bydd Cwricwlwm i Gymru 2022 diwygiedig ar gael i ysgolion o fis **Ionawr 2020** er mwyn iddynt allu cynllunio a datblygu eu cynnig o ran y cwricwlwm.

Rhoddir Cwricwlwm i Gymru 2022 ar waith o fis **Medi 2022** ar gyfer pob grŵp blwyddyn ysgolion cynradd a Blwyddyn 7 ysgolion uwchradd.

Rhoddir Cwricwlwm i Gymru 2022 ar waith ar gyfer Blwyddyn 8 ym mis **Medi 2023** ac o un flwyddyn i'r llall nes y caiff ei gyflwyno i Flwyddyn 11 yn **2026**.



